

CYNGOR BWRDEIS TREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

Welsh Language Cabinet Steering Group

A Meeting of the **Welsh Language Cabinet Steering Group** will be held at the **Council Chamber, Rhondda Cynon Taf Council Headquarters, Clydach Vale, CF40 2XX**, on **19 June 2017 at 10.00 am**

Contact: Hannah Williams (Tel No. 01443 424062)

ITEMS FOR CONSIDERATION

Pages

1. DECLARATION OF INTEREST:

To receive disclosures of personal interest from Members in accordance with the Code of Conduct.

Note:

1. Members are requested to identify the item number and subject matter that their interest relates to and signify the nature of the personal interest.
2. Where Members withdraw from a meeting as a consequence of the disclosure of a prejudicial interest they must notify the Chairman when they leave.

2. MINUTES

To receive the minutes of the Welsh Language Cabinet Steering Group from the previous meeting held on 25th January, 2017.

(Pages 3 - 10)

3. WELSH LANGUAGE STANDARDS COMPLIANCE REPORT TO THE WELSH LANGUAGE COMMISSIONER 2016 - 2017

To provide the Welsh Language Cabinet Steering Group with a copy of the Compliance Report 2016-17.

(Pages 11 - 62)

4. PROMOTION OF THE WELSH LANGUAGE WITHIN LOCAL COMMUNITIES

To provide the Welsh Language Cabinet Steering Group with an oral presentation on the Promotion of the Welsh Language within Local Communities

5. URGENT BUSINESS

To consider any other business, which the Chairman by reason of special circumstances is of the opinion should be considered at the meeting as a matter of urgency.

6. DATE OF NEXT MEETING

To note the date of the next meeting of the Welsh Language Cabinet Steering Group as the Tuesday 14th November, 2017.

Circulation: - All Members of the Steering Group, as follows:-

COUNTY BOROUGH COUNCILLORS:

G. Hopkins (Chair)
R Bevan
M Webber
J. James
S. Rees-Owen
(Mrs) J. Rosser (Vice-Chair)

OFFICERS:

Esther Thomas, Director of Education & Lifelong Learning
Steffan Gealy, Head of Welsh Language Service
Wendy Edwards, Head of Community Learning
Christian Hanagan, Service Director of Cabinet & Public Relations

MENTER IAITH

Einir Sion

This page is intentionally left blank

CYFARFOD SWYDDOGOL O GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, fore Mercher 25ain Ionawr 2017, 10am, Pencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

E Hanagan – Cadeirydd

R Bevan

C Davies

Swyddogion oedd yn bresennol

Mrs W Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Mr S Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms E Siôn – Menter Iaith

Ms Hannah Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

23 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Hopkins a M Webber a'r Ysgrifennydd i'r Cabinet, Mr C Hanagan.

24 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

25 COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 30^{ain} Tachwedd 2016.

26 STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG

Cyflwynodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned fersiynau mwy diweddar o Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu i'r Grŵp Llywio, sydd wedi'u diwygio yn unol â chais y Cynghorwyr ar 30 Tachwedd 2016.

Eglurodd y Swyddog fod y Strategaeth yn aros yr un fath ond bod y Cynllun Gweithredu wedi cael ei newid yn y gobaith o ddarparu eglurder rhwng swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor a swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r Fforwm Iaith ar gyfer cyflawni targedau.

Cyfeiriwyd y Cynghorwyr at dudalen 127 o'r adroddiad a oedd yn rhoi amlinelliad o'r camau gweithredu a monitro. Eglurodd y swyddog bydd cynnydd pob maes gwasanaeth yn cael ei fonitro'n agos a bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain bob chwe mis ac i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ddwywaith y flwyddyn fan lleiaf.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am eu gwaith caled yn ystod y broses ymgynghori, gan ddweud ei fod yn caniatáu i drigolion leisio'u barn wrth gryfhau trefniadau cydweithio gyda phartneriaid.

Diolchodd y Cynghorydd C Davies hefyd i'r swyddogion am eu gwaith wrth baratoi Strategaeth Hybu a Chynllun Gweithredu, gan ddweud bod y rhannu'r cyfrifoldebau wedi ei gwneud hi'n glir i bawb sydd ynglŷn â'r gwaith o fynd ati.

Dywedodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned fod pob Cyfarwyddwr wedi cael copi o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu drafft er mwyn eu dosbarthu ymhlith swyddogion eu gwasanaethau a chynnig newidiadau. Eglurodd y swyddog fod adborth y gwasanaethau, ar y cyfan, wedi arwain at newid amserlenni yn hytrach na newid camau gweithredu. Cydnabuwyd bod rhai targedau yn uchelgeisiol ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth a bod amserlenni wedi cael eu haddasu ychydig i adlewyrchu'r capasiti presennol o ran staff sy'n medru'r Gymraeg.

Holodd y Cynghorwyr am y camau nesaf. O'u cymeradwyo, bydd y Strategaeth a'r Cynllun yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer eu cymeradwyo ac yna'u codi i wefan y Cyngor, gan anfon copi at Gomisiynydd y Gymraeg.

Holodd y Cynghorwyr sut roedd y cynllun yn cymharu â chynlluniau Awdurdodau Lleol eraill. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg ei fod yn debyg iawn i'r rhai'r de Ddwyrain, ond bod llai i gynlluniau awdurdodau eraill megis y rhai yng Ngogledd a Gorllewin Cymru.

Dywedodd un Cynghorydd bod targed o gynnydd o 3% yn nifer y bobl sy'n medru'r Gymraeg yn ymddangos yn rhesymol ond bod rhai pryderon wrth gyflawni hyn:

- Y gostyngiad posibl o 40% mewn genedigaethau
- Trigolion yn symud o'r ardal
- Marwolaethau yn yr ardal

Dywedodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned os bydd Canolfan Cymraeg i Oedolion yn cyflawni ei darged o 900 o ddysgwyr ychwanegol, byddai hyn yn cael effaith bellgyrhaeddol.

Cytunodd yr Aelodau fod hyn yn parhau i fod yn agwedd hanfodol o'r Cynllun gydag un Cynghorydd yn nodi bod oedolion wedi dangos brwdfrydedd tuag at y Gymraeg yn ei gymuned leol.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg fod canran o'r staff y Cyngor yn ystyried eu hunain yn ddi-Gymraeg yn sgil colli'r iaith dros y blynyddoedd oherwydd diffyg arfer. Pwysleisiodd E Siôn, Menter Iaith, pwysigrwydd gweithio gyda'r bobl yma i gynyddu eu hyder drwy ddigwyddiadau a dosbarthiadau.

Cafwyd trafodaethau ar y Gymraeg mewn addysg gyda'r Cynghorwyr yn cytuno bod hyn yn rhan hanfodol o'r Cynllun Gweithredu. Dywedodd un Cynghorydd bod ysgolion Cymraeg, yn anffodus, ddim wedi'u hadeiladu yn sgil ystyried materion lleoliad a phoblogaeth, ond yn hytrach ar sail adeiladau gweigion ar gael ar y pryd. Esboniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi, Twristiaeth, a Chynllunio bod anawsterau o ran datblygu adeiladau newydd oherwydd diffyg tir, newid mewn demograffig ac ar adeg pan mae'r boblogaeth yn fwy craff. Ychwanegodd bod gweld cynllun yn uchelgeisiol yn beth cadarnhaol; gan roi llw o dargedau i bartneriaid i weithio tuag atynt.

Roedd Aelodau o'r Grŵp Llywio yn fodlon ar y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad a'r cynlluniau sydd ar waith i fonitro cynnydd.

Dywedodd E Siôn y byddai'r Fforwm Iaith yn cynnal cyfarfodydd y dyfodol cyn cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg er mwyn rhoi adborth ar y targedau sy wedi'u nodi yn Rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Cymeradwyo'r Strategaeth i'w chyflwyno gerbron y Cabinet

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40am

Y Cynghorydd E Hanagan

Cadeirydd.

This page is intentionally left blank

OFFICIAL ATTENDANCE OF RHONDDA CYNON TAF COUNCIL'S WELSH LANGUAGE CABINET STEERING GROUP

Minutes of the meeting of the Welsh Language Cabinet Steering Group on Wednesday 25th January, 2017 at 10am at the Council Headquarters, Clydach Vale.

County Borough Councillors in attendance:-

E Hanagan – Chairman

R Bevan

C Davies

Officers in attendance

Mrs W Edwards – Head of Community Learning

Mr S Gealy – Service Manger – Welsh Language Services

Ms E Siôn - Menter Iaith

Ms Hannah Williams – Cabinet Business Officer

23 APOLOGIES

Apologies for attendance were received from County Borough Councillors G Hopkins and M Webber and the Secretary to the Cabinet, Mr C Hanagan.

24 DECLARATION OF INTEREST

There were no declarations of interest made pertaining to the agenda.

25 MINUTES

The minutes of the 30th November, 2016 were approved as an accurate reflection of the meeting.

26 THE WELSH LANGUAGE PROMOTION STRATEGY

The Head of Community Learning provided the Steering Group with a copy of the updated Welsh Language Promotion Strategy and Action Plan, amended as requested by Members on 30th November, 2016.

The officer explained that the Strategy remained the same but that the Action Plan had been amended in the hope of providing clarity between the role and responsibility of the Council and the roles and responsibilities of Fforwm Iaith members for achievement of targets.

Members of the Group were referred to page 127 of the report where the implementation and monitoring of the plan was outlined. The officer explained that the progress of each service area will be closely monitored and reported back to the Senior Leadership Team every six months and the Welsh Language Cabinet Steering Group no less than twice a year.

The Chair took the opportunity to thank officers for their hard work during the consultation process, commenting that it allowed residents to voice their opinions whilst strengthening collaborative working with partners.

Councillor C Davies also thanked officers for their work in conducting the Promotion Strategy and Action Plan, commenting that the division of responsibilities has made it clearer for all involved.

The Head of Community Learning advised the Group that every Director had been sent a copy of the draft Strategy and Action Plan in order for it to be disseminated to their services and amended if required. The officer explained that, overall, feedback from services had resulted in changes to timescales as opposed to changes to the actions. It was recognised that certain targets were ambitious for some service areas and that timescales had been adjusted slightly to reflect the current Welsh language staffing capacity.

Members questioned the next steps and it was advised that if approved, the Strategy and Plan would be submitted to Cabinet for approval and posted on the Council's website, with a copy sent to the Welsh Language Commissioner.

Members queried where the plan was in comparison to other Local Authorities and the Service Manager, Welsh Language Services explained that it was on par, but that other authorities such as those in North and West Wales have less to include.

One Member commented that an increase of 3% of the number of people able to speak the Welsh Language seemed reasonable but raised a number of concerns in achieving this:

- The anticipated 40% reduction in new births
- The movement of residents out of the area
- Death in the area

The Head of Community Learning advised that if the Welsh for Adults Centre achieved its target of an additional 900 adult learners, this would have a wide spread impact.

Members agreed that this remained a vital aspect of the Plan with one Member commenting that adults had shown enthusiasm towards the Welsh Language in his local community.

The Service Manager, Welsh Language Services commented that a percentage of staff categorise themselves as non-Welsh Language speakers when in some cases, they have knowledge but have lost it through the years due to lack of practice. E Sion, Menter Iaith, stressed the importance of working with these people to increase their confidence through events and classes.

Discussions ensued around the Welsh Language in education with Members agreeing that this was an essential role in the Action Plan. One Member commented that, unfortunately, Welsh schools were never built to suit location and population, but rather where buildings became available at the time. The Cabinet Member for Economic Development, Tourism and Planning explained the difficulty of developing new buildings due to lack of land, a change in demographic and at a time where the population is savvier. The Member added that it was positive that the plan was ambitious; giving partners a plethora of goals to work towards.

Members of the Steering Group were pleased with the actions contained within the report and the plans in place to monitor the progress.

E Sion advised that Fforwm Iaith would conduct future meetings prior to the Welsh Language Cabinet Steering Group in order for her to successfully provide feedback on the targets identified in Part 2 of the Action Plan.

Following discussions, it was **RESOLVED** to:

- a) Note the contents of the report
- b) Approve the Strategy for Cabinet submission

This meeting closed at 10:40am

**Cllr E Hanagan
Chairman.**

This page is intentionally left blank

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG
19 MEHEFIN 2017

ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG
- I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG
2016 – 2017

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN
TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y
CYNGHORYDD G. HOPKINS

AWDURON: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
(01443 744111)

Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
(01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2016 - 2017 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Argymell bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf.
- 2.3 Gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y safonau darparu gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau llunio polisïau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw

4. CEFNDIR

4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016.

4.2 Y dyddiad cyntaf ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg oedd 30 Mawrth 2016. Am hynny, roedd adroddiad llynedd yn ymdrin â'r ddau ddiwrnod cyntaf o weithredu'r Safonau (sef, 30 a 31 Mawrth 2016.)

4.3 Mae adroddiad eleni yn rhoi gwybodaeth am y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu'r Safonau, ac yn wahanol i adroddiadau blynyddol blaenorol o dan Gynllun Cymraeg y Cyngor, lle roedd gofyn i ni eu cyflwyno yn ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg, mae hi, erbyn hyn, yn ofynnol i ni eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a sicrhau eu bod nhw ar gael ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor (sydd ar agor i'r cyhoedd) erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf.

4.4 Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

4.5 Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i adroddiad blynyddol eleni gynnwys y canlynol:

- (1) *nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisiau (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw*
- (2) *nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw*
- (3) *nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (4) *canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (5) *nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

5. Camau Nesaf

- 5.1 Os bydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu argymhell yr Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddsbarthu a bydd cyhoedduswydd yn cael ei roi iddo yn unol â Safonau 158, 164 a 170.
- 5.2 Mae hi'n cael ei rhagweld y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi adborth ar yr adroddiad blynyddol, gydag argymhellion, yn ystod yr hydref.

6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 6.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

7. YMGYNGHORI

- 7.1 Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTNASOL

- 9.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

10. CYSYLLTIADAU Â CHYNLLUN CORFFORAETHOL / BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL ERAILL Y CYNGOR

- 10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawsdiriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.

11. CASGLIAD

- 11.1 Dyma'r ail adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae e wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er ei bod hi'n cael ei chydabod bod rhaid i ragor o waith gael ei wneud, mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd da sydd wedi cael ei wneud gan y meysydd gwasanaeth o ran gwreiddio trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg
2016 – 2017

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mehefin 2017

CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 1
Uned Gwasanaethau Cymraeg	tudalen 3
Cwynion	tudalen 5
Sgiliau Cymraeg Staff	tudalen 6
Hyfforddiant	tudalen 7
Llenwi Swyddi Gwag	tudalen 7
Rhagor o wybodaeth - manylion cyswllt	tudalen 8
Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio	tudalen 9

CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016.

Gweledigaeth

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymrwmo i greu amgylchedd sy'n annog eu trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiau yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn ystyried adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, mae Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu gwireddu, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Cysylltiadau â Pholisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor: mae ymrwymadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn rhan o'i ddogfennau cynllunio gan gynnwys Cynllun Gwella 2015, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chynllun Corfforaethol 2016-2020. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a

Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod cenedlaethol. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu ar gyfer siaradwyr Gymraeg.

Rhoi Adroddiad

Mae eleni wedi parhau i fod yn flwyddyn o drawsnewid. Yn flaenorol, roedd Cynllun y Gymraeg yn cael ei weithredu, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond erbyn hyn, mae gofyn i ni weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Oherwydd yr amrywiadau sydd wedi'u cymhwyso i rai o'r Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn proses apelio, mae'r adroddiad yma'n cynnwys y Safonau perthnasol yn swyddogol, y mae rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno ar 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 ac (ynghyd ag Atodiad 1) yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau atodol canlynol:

Safon Cyflenwi Gwasanaethau

Safon Gweithredu

Safon Llunio Polisi

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol: hynny yw

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Gymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a gafodd hyfforddiant Gymraeg (Safon 152)
- canran y staff a gymerodd ran yn un o'r cyrsiau uchod (Safonau 128/152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
- nifer y cwynion a gafodd y Cyngor

Uned Gwasanaethau Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg o ystyried y risgiau cysylltiedig o fethu â chydymffurfio. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r man cyswllt cyntaf. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 13 (2016/2017) o weithwyr. Mae'n gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- nodi meysydd methu â chydymffurfio posibl
- atgyfeirio cwynion ffurfiol mewn perthynas â methu â chydymffurfio i Swyddog Cwynion y Cyngor
- cofnodi cwynion anffurfiol gan gwsmeriaid a pharatoi adroddiadau chwe-misol ar gyfer Gweithgor y Gymraeg
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg y gymuned fel sy'n briodol

Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau, mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi meithrin perthynas gyda phob gwasanaeth er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Safonau ar waith. Mae systemau monitro wedi'u sefydlu i sicrhau bod y gweithdrefnau a gaiff eu cyflwyno yn hwyluso'r deilliant rydyn ni'n bwriadu'i gyflawni - sef normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac annog defnydd ohoni.

Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi diweddarau Polisi'r Gymraeg / Canllaw i Staff y Cyngor i adlewyrchu'r gofynion statudol newydd. Yn ogystal â hynny, sicrhawyd cyllid ychwanegol, yn groes i'r duedd, i alluogi ailstrwythuro a chynyddu gallu'r Uned Gyfieithu.

Parhawyd i roi cyfarwyddyd i Brif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaeth yn ystod 2016/2017 i sicrhau eu bod nhw'n deall sut bydd y Safonau statudol yn effeithio ar wasanaethau ac yn sgîl hynny, bod y gwasanaethau yn parhau i fynd i'r afael â gofynion a goblygiadau penodol. Yn ogystal â hynny, sicrhawyd cyllid ar gyfer rhoi hyfforddiant (sesiwn o 3 awr) i'r holl staff rheng flaen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys deall y Safonau sy'n berthnasol i Staff y Gwasanaeth i Gwsmeriaid a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu rôl, a phwysigrwydd cynnig gwasanaeth i

gwsmeriaid o safon uchel i bob cwsmer. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys sesiynau iaith, e.e. cyfarch a sgwrsio yn Gymraeg (syml). Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg hefyd yn parhau i roi cyflwyniadau.

Fe barhaon ni i baratoi a dosbarthu dogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys: *y llyfryn 'Cymraeg: Beth Sydd Wedi Newid? (What's Changed?) i staff (ar ffurf PDF) ar ryngwrwyd fewnol y Cyngor, yn ogystal â dogfen Canllawiau Estynedig y Safonau a llyfryn TGCh 'Cymorth ar flaen eich bysedd' (Welsh @your fingertips) a matiau llygoden sy'n cynnwys cyfarchion Cymraeg.*

Yn rhan o ofynion y Cyngor i baratoi strategaeth 5 mlynedd o dan Safon 145, fe ymgynghoron ni â thriolion Rhondda Cynon Taf i gasglu adborth ar eu blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg (Ebrill - Mehefin 2016). Yn ogystal â hynny, ymgynghoron ni â Menter Iaith, aelodau o'r Fforwm Iaith (Grŵp Strategol y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf), Uwch Dîm Arwain y Cyngor, gwasanaethau Cyngor mewnol ac Aelodau o'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg. Llywododd canlyniadau'r ymgynghoriad y strategaeth 5 mlynedd mewn cydweithrediad â Sbectrwm, sef, sefydliad sydd â phrofiad helaeth o gynllunio iaith; Menter Iaith ac aelodau o'r Fforwm Iaith, Gwasanaethau Cyngor ac Aelodau Etholedig.

Yn ogystal â hynny, sicrhodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg wasanaeth dau swyddog graddedig i ymgymryd â phrosiect ymchwil (parhaus) i hyrwyddo darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cymunedau lleol. Prif nodau'r prosiect yma yw:

- Edrych yn fanwl ar y lefel bresennol o wasanaethau Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu darparu gan y Rhaglen Trechu Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf a chlybiau gwaith maen nhw'n eu comisiynu.
- Nodi bylchau yn sgiliau iaith Gymraeg y rheiny sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni, clybiau gwaith a gweithgareddau o'r fath ;
- Darparu argymhellion i noddwr y prosiect a all helpu i lywio strategaeth yr awdurdod a bodloni'r Safonau Cymraeg o fewn ei brosesau a'i weithdrefnau.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn 2017/2018 a fydd yn tynnu ar y dystiolaeth a'r data a gafodd eu casglu.

Gan adeiladu ar y berthynas iach rhwng yr Uned Gwasanaethau Cymraeg a meysydd gwasanaeth trawsbynciol eraill, cytunwyd y byddai gofyn i'r holl wasanaethau gynnwys datblygiadau

perthnasol yn eu Hadroddiadau Hunanarfarnu Blynyddol, oherwydd arwyddocâd y Safonau. Mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)


Derbynion ni'r cwynion canlynol yn 2016 a 2017:

Dyddiad y Gŵyn	Natur	Drwy	Deilliant/Ymateb
Gorffennaf 2016	Gwasanaethau Hamdden: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau 81 ac 84 y mae rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw yn ôl y gyfraith.	Comisiynydd y Gymraeg	Parhaus, fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017. Safon 81: Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, y canfyddiad sydd wedi'i gynnig yw nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 81 yn yr achos yma, ar y sail bod y person sy'n cynnig y gwersi nofio yn Gymraeg ar ei ran yn hyrwyddo'r gwersi ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg. Safon 84: Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, y canfyddiad sydd wedi'i gynnig yw nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 84 yn yr achos yma, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg ar sawl lefel, er bod gwersi nofio drwy gyfrwng y Saesneg yn cael eu cynnig ar y lefelau hynny. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn

			cynnig bod y Cyngor yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn datgan pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio.
Rhagfyr 2016	Gwasanaeth Pensiwn: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safon 1	Comisiynydd y Gymraeg	Parhaus, fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017. Cylch Gorchwyl sydd wedi'i gynnig yn dilyn ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'r diffyg cydymffurfio posibl. Derbyniwyd y Safonau ar 23 Mawrth 2017.

SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r rhan yma'n nodi'n fras nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2016 - 2017 (Ebrill 2017). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

Nifer sylfaenol y staff*	Lefel y gallu: 	Rhugl	%	Eithaf rhugl	%	Cyfan swm	%
14,495	Pob aelod o staff	800	5.52	395	2.73	1,195	8.25
8,074	Staff mewn ysgolion	564	6.99	327	4.05	891	11.04
6,421	Staff sydd ddim mewn ysgolion	236	3.68	68	1.06	304	4.74

* Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithiwr wedi'i gyfrif ar gyfer pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd

HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2) b+c

Cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu rhwng 2016 a 2017: Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 152, yn seiliedig ar ofynion Safon 128.

Recriwtio a hysbysebu.

Mae un sesiwn wyneb yn wyneb wedi cael ei chynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rheoli Cyflawniad (Perfformiad)

Mae un sesiwn wyneb yn wyneb wedi cael ei chynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu - dim cyrsiau wedi cael eu darparu

Cyrsiau ymsefydlu - mae un sesiwn ymsefydlu wedi cael ei chynnal ar gyfer graddedigion a phrentisiaid. Doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymdrin â'r cyhoedd - mae un cwrs gwasanaethau i gwsmeriaid wedi cael ei gynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Iechyd a Diogelwch - does dim hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi cael ei ddarparu.

LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)

Rhwng 2016 a 2107, cafodd y swyddi canlynol eu hysbysebu, a chafodd ei nodi bod angen sgiliau Cymraeg ar eu cyfer. Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136.

Sgiliau Cymraeg	Angen dysgu	0
Sgiliau Cymraeg	Dim gofyn amdanyn nhw	85
Sgiliau Cymraeg	Dymunol	250

Sgiliau Cymraeg	Hanfodol	11
-----------------	----------	----

Rhagor o wybodaeth:

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn A

Cwm Clydach

Tonypandy

Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

Atodiad 1

Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio

Mae'r canlynol yn nodi manylion ar sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau perthnasol yn ystod 16/17 ar sail Hunanasesiadau Gwasanaethau Unigol.

Cymunedau a Ffyniant

Ymgwymerodd Menter Iaith ag adolygiad i edrych yn fanwl ar y gwasanaethau iaith Gymraeg a dwyieithog sy'n cael eu darparu gan y tair rhaglen Trechu Tlodi, sef, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys:

Pennu swyddog dynodedig i helpu i roi dull strategol ar waith wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn y tair rhaglen.

Cynnal archwiliad o fedrau a gallu'r staff mewn perthynas â'r Gymraeg.

Arwyddion dwyieithog a deunyddiau hyrwyddo/cyhoeddusrwydd - mae pob swyddfa ag arwydd dwyieithog erbyn hyn.

Canllawiau arfer da wrth gysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau dros y ffôn - yn ystod mis Awst a mis Medi 2016, cafodd yr holl staff Hyfforddiant i Dderbynwyr.

Mae gan bob aelod o staff lofnod e-bost corfforaethol dwyieithog a mynediad at y ddogfen 'Cymraeg. Beth sydd wedi newid?' erbyn hyn.

Mae sefydlu carfan comisiynu sengl, yn rhan o'r gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant, yn sicrhau bod gofynion Safonau'r Gymraeg yn cael eu gwreiddio yn y contractau sy'n cael eu comisiynu gan y gwasanaeth. Mae Swyddogion Cydymffurfio a Monitro wedi cael eu penodi i'r garfan i sicrhau bod partneriaid yn dilyn y gofyniad yma.

Ar hyn o bryd, mae adolygiad o'r holl waith sy'n cael ei gomisiynu yn cael ei gynnal gyda ffocws allweddol ar y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwaith yma'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

Gwasanaeth Tai Cymunedol

Yn y gwasanaeth yma, mae 5 o siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae dau aelod o staff yn dysgu Cymraeg hefyd. Maen nhw wedi cael amser allan o'r swyddfa i fynd i ddsbarthiadau Cymraeg ac mae'r gwasanaeth wedi ariannu hynny.

Rydyn ni wedi sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â gofynion Safonau'r Gymraeg mewn cyfarfodydd carfan ac maen nhw wedi cael eu cyfeirio at yr hyfforddiant sydd ar gael drwy'r

fewnwyd. Mae Arweinwyr Carfan wedi cael y dasg o sicrhau bod y deunydd darllen sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael ei gyfieithu.

Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu, er enghraifft, ffurflen gais ar gyfer tai, yna, rydyn ni'n gofyn beth yw'r dewis iaith. Mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn yn Gymraeg ac mae Cymraeg yn cael ei siarad yn aml yn y swyddfa ac mae hynny'n cael ei annog.

Gwasanaethau i Oedolion

Mae gwaith wedi parhau yn 2015/16 mewn perthynas â rhoi'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' ar waith. Cafodd y cynllun yma ei gyflwyno yn dilyn cyflwyno fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae cynnydd da yn cael ei wneud yn y Gwasanaethau i Oedolion wrth i ni barhau i symud tuag at fod yn wasanaeth 'cynnig gweithredol', lle rydyn ni'n symud y cyfrifoldeb yn gyfan gwbl oddi ar ddefnyddwyr i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg - mae'r gwasanaethau yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig erbyn hyn.

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn cynnig y Gymraeg yn iaith cyfathrebu i bobl sy'n ffonio'r llinell 'Ymateb ar Unwaith' - maen nhw'n cael y cyfle i ddewis yr opsiwn Cymraeg neu'r opsiwn Saesneg. Os yw'r opsiwn Cymraeg yn cael ei ddewis, mae'r galwr yn cael ei ddargyfeirio i siaradwr Cymraeg. Mae modd datblygu a chefnogi'r cynnig yma drwy wasanaethau tymor byr a thymor hir.

Yn 2015/16, fe ddiwygion ni ein systemau gwybodaeth er mwyn i ni allu cofnodi/adlewyrchu dymuniadau defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â chyfathrebu ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rydyn ni wedi cysylltu â siaradwyr Cymraeg sy'n hysbys i ni er mwyn adolygu eu gofynion.

Rydyn ni wedi parhau i godi a hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith ymhlith ein staff i gyd. Rydyn ni'n annog staff i ymgymryd â chysiau Cymraeg a hyfforddiant gloywi (ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithle) ac yn rhoi'r cyfle iddyn nhw wneud hynny.

